Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr - Canlyniadau Safon Uwch 2020

Llongyfarchiadau mawr i holl fyfyrwyr Blwyddyn 13 ar eu llwyddiant yn eu arholiadau a'u cymwysterau Safon Uwch, BTEC a'r Fagloriaeth. Mae wedi bod yn gyfnod anodd tu hwnt i'r myfyrwyr yn sgil y penderfyniad i gau ysgolion a chanslo'r arholiadau Safon Uwch terfynol. Mae'r canlyniadau hyn yn deyrnged i'w hymroddiad a'u gwaith diwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf hyd at ddiwedd mis Mawrth.

Mae'r mwyafrif helaeth o'r myfyrwyr a wnaeth gais am gyrsiau addysg uwch wedi eu derbyn i'r Prifysgol o'u dewis, a chanran uchel o rheiny yn Brifysgolion Grwp Russell.

Mae fy niolch yn fawr i'r holl staff sydd wedi paratoi, cynllunio, addysgu, mentora ac asesu'r myfyrwyr trwy eu cyrsiau Safon Uwch, BTEC a'r Fagloriaeth. Bu'n gyfrifoldeb aruthrol i bob un ohonynt benderfynnu ar radd haeddiannol i bob myfyriwr. Gwnaed hynny mewn modd gwbl deg a phroffesiynol ac rwy'n ddiolchgar iawn iddynt am eu gwaith trwyadl.

Mae'r broses safoni a gyflawnwyd gan y bwrdd arholi, CBAC wrth ddyfarnu'r graddau Safon Uwch terfynol wedi arwain at ostyngiad sylweddol eleni yn ein % graddau A* a % graddau A o gymharu a pherfformiad yr ysgol dros y dair mlynedd ddiwethaf.

Ysgol Gyfun Gymraeg Plasmawr - A Level results 2020

Congratulations to all our Year 13 students for their well-deserved success in their A Level, BTEC and Welsh Baccalaureate exams and qualifications. It has been an extremely difficult period for our students since the announcement was made to close schools due to the pandemic and to cancel the final A level exams. The results achieved are a tribute to our student's ability, endeavour, dedication and perseverance over the past two years.

The majority of our students who applied for Higher Education courses have been accepted to the Universities of their choice, a high percentage of which are Russell Group Universities.

I am indebted to my staff for preparing, encouraging, assessing and mentoring their students so well for their A level, Welsh Baccalaureate and BTEC courses and who take so much pride in the achievements of their students. It has been a huge responsibility for teachers to determine the appropriate grades for individual students, but the task was conducted in a fair and professional manner and I am indebted to them for this important work.

However, the moderation process conducted by the WJEC examination board in determining the final A level grades has resulted in a significant reduction in the % of A* and A grades awarded to our students compared with the school's 3 year rolling average.



John Hayes

Pennaeth / Headteacher